



Llywodraeth Cymru Dogfen ymgynghori

Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft

Dyddiad cyhoeddi: 14 Gorffennaf 2020
Camau gweithredu: Ymatebion erbyn 04 Rhagfyr 2020

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

Trosolwg	Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i randdeiliaid gyfrannu at y cynigion a amlinellir yn y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft. Nod y Bil drafft yw darparu fframwaith llywodraethiant clir a chryf yng Nghymru a fydd yn cefnogi'r broses o ddarparu goruchwyliaeth, cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth ar gyfer y sector addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.
Sut i ymateb	Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad drwy ddefnyddio'r holiadur ar ddiwedd y ddogfen; cwblhau'r ffurflen ar-lein a/neu drwy fynd i un o'r digwyddiadau a gynhelir rhwng mis Medi a mis Tachwedd.
Gwybodaeth bellach a dogfennau perthnasol	<p>Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.</p> <p>Mae'r ddogfen ymgynghori'n cynnwys Datganiad Ysgrifenedig y Gweinidog Addysg a chwestiynau penodol yr hoffem i chi eu hystyried. I'ch helpu i wneud hyn, mae nifer o ddogfennau ar gael sydd wedi'u rhestru isod.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llyfryn gwybodaeth 1 - Llywio dyfodol addysg ôl-16 yng Nghymru • Llyfryn gwybodaeth 2 - Crynodeb o'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft • Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) – drafft llawn • Memorandwm Esboniadol drafft - gyda'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft yn Rhan 2 • Asesiadau Effaith Integredig drafft • Datganiad drafft o Fwriad y Polisi mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth
Manylion cyswllt	<p>I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Thîm Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol</p> <p>Cyfeiriad e-bost: DiwygioPCET@llyw.cymru</p>

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion cyn cyhoeddi eich ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, yna caiff yr adroddiadau hyn a gyhoeddir eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael mwy o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac at ba ddiben, neu os hoffech arfer eich hawl o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer / Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Ymgynghoriad ar fersiwn ddrafft o Fil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)
DYDDIAD	14 Gorffennaf 2020
GAN	Kirsty Williams MS, Y Gweinidog Addysg

Yn dilyn fy natganiad ysgrifenedig ar 9 Mehefin 2020, cyhoeddaf heddiw yr ymgynghoriad ar fersiwn ddrafft o Fil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru). Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau heddiw ac yn dod i ben ar 4 Rhagfyr 2020. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid drwy gydol y broses o ddatblygu'r diwygiadau hyn ac rwy'n ddiolchgar iawn am eich adborth gwerthfawr. Mae hyn wedi ein helpu i ddatblygu'r polisi a drafftio'r ddeddfwriaeth sydd bellach, yn fy marn i, yn gallu rhoi hyblygrwydd i'r Comisiwn ddatblygu a gweithredu fel corff hyd braich annibynnol pan fydd wedi'i sefydlu.

Mae'n hanfodol ein bod yn cael y diwygiadau hyn yn iawn ac ni allwn fforddio eu gohirio am gyfnod amhenodol. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gyfle i sicrhau bod y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru'n gweithredu'n effeithiol ar ôl cyfnod yr argyfwng Covid. Bydd cael trafodaeth ystyrlon gyda'n rhanddeiliaid ar fanylion y Bil drafft hwn yn sicrhau ein bod yn creu system sy'n addas ar gyfer heriau'r dyfodol.

Mae'r Bil, fel y'i ddrafftiwyd, yn diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac yn sefydlu Comisiwn newydd, sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Bydd y Comisiwn newydd yn gyfrifol am y sector addysg drydyddol cyfan yng Nghymru a bydd yn cynnwys Ymchwil ac Arloesi Cymru fel pwyllgor o'r Comisiwn newydd.

Bydd yn ddyletswydd ar y Comisiwn i hyrwyddo ymdeimlad o genhadaeth ddinesig gan sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu a Chymru gyfan. Mae hyn yn bwysicach nag erioed nawr.

Mae'r Bil drafft yn rhoi dysgwyr wrth wraidd y diwygiadau ac yn cynnwys darpariaethau penodol i'w diogelu mewn cyfnod ansicr. Mae hefyd yn cyflwyno gofyniad i'r Comisiwn gyhoeddi cod newydd ar gyfer cynnwys dysgwyr yn y broses o lywodraethu a rheoli darparwyr.

Bydd y Comisiwn yn sicrhau mwy o gydlyniant ar draws y sector addysg drydyddol drwy hyrwyddo llwybrau dysgwyr yn glir, gan gynnwys sut mae dysgwyr yn trosglwyddo o addysg orfodol i addysg ôl-orfodol. Un o dasgau'r Comisiwn fydd cryfhau'r cydweithio er

mwyn gwella ansawdd ac effeithlonrwydd drwy sicrhau strwythurau goruchwyllo mwy cydlynol i arwain, cefnogi, monitro a gwerthuso'r sector addysg drydyddol yn erbyn amcanion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd yn gallu gwneud hyn wrth i ni ddwyn ynghyd mewn un lle y trefniadau ar gyfer cyllido, goruchwyllo a chefnogi addysg uwch, addysg bellach, chweched dosbarth ysgolion a phrentisiaethau, ynghyd â'r cyfrifoldeb am ymchwil ac arloesi lefel uwch a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Bydd y Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi cynllun strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil, a chreu model cofrestru newydd ar gyfer darparwyr addysg drydyddol.

Bydd y Comisiwn hefyd yn sicrhau ac yn gwella ansawdd a safon yr addysg drydyddol a'r hyfforddiant yn y sector addysg drydyddol, gan greu dull gweithredu cyson sy'n seiliedig ar ansawdd drwy egwyddorion a rennir a chydweithredu.

Bwriedir cynnal digwyddiadau i randdeiliaid ar y Bil drafft rhwng mis Medi a mis Tachwedd, a byddwn yn annog unrhyw un sydd â buddiant yn y diwygiadau hyn i fanteisio ar y cyfleoedd amrywiol y byddaf yn eu cynnig i helpu pobl Cymru i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Er mai mater i'r Llywodraeth nesaf, yn y pen draw, fydd penderfynu a ddylai'r diwygiadau hyn gael eu cyflawni, rwy'n benderfynol o wneud popeth gallaf i sicrhau bod darn cadarn a chynhwysfawr o ddeddfwriaeth, sydd wedi'i lywio gan ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn ar y Bil drafft, yn barod i'w chyflwyno gerbron y Senedd yn gynnar yn y tymor newydd.

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw:

Eich sefydliad (os yn berthnasol):

Eich cyfeiriad e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cenhadaeth ddinesig

Mae'r Bil drafft (Adran 7(4)) yn diffinio "cenhadaeth ddinesig" fel "gweithredu at ddiben hybu neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol Cymru (gan gynnwys gweithredu a all gyflawni unrhyw un neu ragor o'r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015".

1. A ydych chi'n cytuno y bydd y dull gweithredu yn y Bil drafft ar gyfer cenhadaeth ddinesig yn ddefnyddiol i'r Comisiwn wrth arfer eu swyddogaethau?

Ydw

Nac ydw

Dim barn y naill ffordd na'r llall

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Anghenion y dysgwr

Diogelu dysgwyr

2. Bydd angen i'r Comisiwn bennu fformat a chynnwys Cynlluniau Diogelu Dysgwyr mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid (adran 114(6) a (7)), gan gynnwys sut i gyfathrebu'r cynlluniau i ddysgwyr a darpar ddysgwyr. Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu hwn?

Ydw

Nac ydw

Dim barn y naill ffordd na'r llall

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Cod Ymgysylltu â Dysgwyr (adran 117)

3. Nod y Comisiwn fydd sicrhau bod buddiannau dysgwyr yn cael eu cynrychioli, a bod pob dysgwr yn cael cyfle i gyfrannu a rhannu eu barn. Ydych chi'n hyderus bod y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn debygol o gynnwys pob dysgwr, a chynrychioli'r sector ôl-16 cyfan yn ddigonol?

Ydw

Nac ydw

Dim barn y naill ffordd na'r llall

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad

4. Mae'r Bil drafft (adran 93) yn caniatáu i'r Comisiwn roi cyllid ar gyfer darparu gwybodaeth, cyngor neu ganllawiau i ddysgwyr yng Nghymru. A oes ystyriaethau pellach y dylid eu hystyried i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyngor neu ganllawiau i gefnogi llwybrau dysgu, pontio a chynnydd er mwyn eu galluogi i gyfrannu a llwyddo mewn cymdeithas deg a chynhwysol ac economi ffyniannus?

Oes

Nac oes

Dim barn y naill ffordd na'r llall

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Cynigion i ad-drefnu chweched dosbarth ysgolion

Bydd gan y Comisiwn rôl mewn perthynas ag ad-drefnu chweched dosbarth ysgolion a gynhelir. Mae'r Bil drafft yn caniatáu i'r Comisiwn gyfarwyddo awdurdod lleol i gyflwyno cynigion ad-drefnu, neu ei gynigion ei hun, mewn amgylchiadau cyfyngedig. Byddai'r amgylchiadau lle gellir defnyddio dull gweithredu o'r fath yn destun ymgynghori ac yn cael eu cynnwys yn y diwygiadau i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol.

5. A ydych chi'n cytuno mai'r Cod Safonau a Threfniadaeth Ysgolion yw'r cyfrwng mwyaf priodol ar gyfer amlinellu'r systemau a'r prosesau ac a oes gennych unrhyw sylwadau ar yr amgylchiadau lle gellir defnyddio dull gweithredu o'r fath?

Ydw

Nac ydw

Dim barn y naill ffordd na'r llall

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Cryfhau'r cydweithredu

6. Mae Rhan 3 o'r Bil drafft yn darparu swyddogaethau i gyllido chweched dosbarth ysgolion, addysg bellach, addysg uwch, prentisiaethau a dysgu oedolion a hefyd dysgu ac arloesi sy'n gysylltiedig â darparwyr addysg. Yn eich barn chi, a oes unrhyw swyddogaethau cyllido neu swyddogaethau eraill ychwanegol a fyddai'n galluogi mwy o gydweithredu ar draws y sector addysg drydyddol?

Oes

Nac oes

Dim barn y naill ffordd na'r llall

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Y Gymraeg/darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai sefydlu'r Comisiwn (adran 8) yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, ac yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

7. Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod:

Y Gymraeg/darpariaeth cyfrwng Cymraeg

8. Eglurwch hefyd os ydych yn teimlo y gellid newid y ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys yn Bil drafft ar gyfer sefydlu'r Comisiwn er mwyn cynyddu'r effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod:

Y Gymraeg/darpariaeth cyfrwng Cymraeg

9. Beth yw eich barn am y dyletswyddau a osodir ar y Comisiwn mewn perthynas ag addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg?

Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod:

Cofrestru

10. A yw'r cynigion ar gyfer Cynlluniau Mynediad a Chyfle (adrannau 32-41) yn ddigonol i sicrhau bod gan y Comisiwn bwerau i ysgogi newid trawsffurfiol o ran ehangu mynediad a chyfle mewn addysg uwch?

Ydyn

Nac ydyn

Dim barn y naill ffordd na'r llall

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Cofrestru

11. A fydd y pwerau arfaethedig i'r Comisiwn ar gyfer monitro, adolygu a sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion cofrestru (adrannau 22-26) yn rhoi digon o hyblygrwydd iddo reoleiddio'n gymesur ac yn briodol?

Byddant

Na fyddant

Dim barn y naill ffordd na'r llall

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Ansawdd

12. Mae'r Bil drafft (adrannau 42-60) yn cynnig dull gweithredu mwy cyson a chydweithredol ar gyfer ansawdd ac arolygu ar draws y sector addysg drydyddol. A yw'r trefniadau arfaethedig yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng adeiladu ar y trefniadau presennol mewn addysg uwch, addysg bellach a hyfforddiant a chweched dosbarth ysgolion a gynhelir, a gweithio tuag at dull gweithredu mwy cyson a chydweithredol ar draws y sector addysg drydyddol?

Ydyn

Nac ydyn

Dim barn y naill ffordd na'r llall

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Ymchwil ac arloesi

13. A ddylai swyddogaethau'r Comisiwn mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi (adrannau 95-97) fod yn ehangach na darparwyr addysg drydyddol cofrestredig yn unig?

Dylent

Na ddylent

Dim barn y naill ffordd na'r llall

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Prentisiaethau

14. Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am fframweithiau prentisiaethau (adrannau 104-107) a bydd Gweinidogion Cymru'n gyfrifol am bennu a chyhoeddi gofynion craidd Manyleb Prentisiaethau Cymru (WAS) (adrannau 101-103). A ydych chi'n cytuno â'r cydbwysedd hwn o ran pwerau?

Ydw

Nac ydw

Dim barn y naill ffordd na'r llall

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Prentisiaethau

15. A yw'r Bil drafft (rhan 4) yn darparu sbardunau strategol digonol i ddatblygu a chynnal uniondeb prentisiaethau yng Nghymru, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion diwydiant?

Ydy

Nac ydy

Dim barn y naill ffordd na'r llall

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Anghenion yr economi a chyflogwyr

16. Mae'n ddyletswydd ar y Comisiwn i ystyried "gofynion rhesymol diwydiant, masnach, cyllid, proffesiynau a chyflogwyr eraill o ran addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi" (adran 2(1)(b)). Yn eich barn chi, a yw'r ddyletswydd hon yn ddigonol ac yn cael effaith ystyrlon fel ag y mae nawr?

Ydy

Nac ydy

Dim barn y naill ffordd na'r llall

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Cyllid

Canolbwyntio ar ddeilliannau:

17. Mae'r Bil drafft (adran 79) yn darparu ar gyfer dull ariannu sy'n seiliedig ar Gytundebau Deilliannau. Bydd hyn yn caniatáu i'r Comisiwn, drwy ei benderfyniadau cyllido a thrafodaethau â chyrff a gyllidir, gyfrannu at gyflawni blaenoriaethau strategol Gweinidogion Cymru ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil. Gweler y Memorandwm Esboniadol am fanylion y bwriad polisi sy'n sail i'r cytundebau deilliannau (paragraffau 3.56 - 3.58 a 3.145 - 3.147). A yw'r dull hwn yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng blaenoriaethau cyllid strategol ac anghenion darparwyr dysgu unigol?

Ydy

Nac ydy

Dim barn y naill ffordd na'r llall

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

18. Mae goblygiadau ariannol y Bil drafft wedi'u hamlinellu yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol drafft. Yn eich barn chi, a oes angen i'n manylion ni o ran costau ystyried unrhyw beth arall?

Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod:

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

19. Byddem yn hoffi i chi ystyried y costau a'r manteision posibl i gyrrff, sefydliadau neu unigolion penodol o ganlyniad i'r Bil drafft. Nodwch unrhyw sylwadau neu dystiolaeth yma:

Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod:

Normal newydd

20. A ydych chi'n meddwl bod y pandemig yn codi materion penodol ar gyfer unrhyw beth a gynigir yn y Bil drafft?

Ydw

Nac ydw

Dim barn y naill ffordd na'r llall

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

Diwygio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol

21. Mae'r Bil yn gyfrwng deddfwriaethol i greu corff newydd, sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. A oes unrhyw ddulliau eraill y gellir eu defnyddio i gyflawni'r newid diwylliannol sydd ei angen i wireddu nodau agenda diwygio AHO.

Oes

Nac oes

Dim barn y naill ffordd na'r llall

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod:

22. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw bryderon nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod i ni amdanynt.

Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu rhannu â'r cyhoedd, ar y rhyngwrdd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych ymateb yn ddiennw, ticiwch yma: